



Beicio a Beicio Mynydd

Datganiad Sefyllfa: 003

Cyflwyniad

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017) fod 9.1% o bobl yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn beicio oddi ar y ffordd a beicio mynydd yn ystod 2016/17. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd beicio mynydd a beicio ledled y wlad. Gan gydnabod y cyfraniad at iechyd a lles ymwelwyr, rydym am annog y gweithgareddau hyn ar dir a reolir gan CNC ac rydym wedi amlinellu, yma, sut y gallwn gyflawni hyn.

Diffiniad

Yma, eglurwn y mathau o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar dir a reolir gan CNC sy'n cynnwys beiciau neu feiciau â chymorth trydan. Mae hyn yn cynnwys:

Unigolion	Grwpiau	Grwpiau masnachol	Digwyddiad
Beicio a beicio mynydd (yn cynnwys Beic Pedal â Chymorth Trydan)	Clybiau beicio a grwpiau anffurfiol	Teithiau dan arweiniad a hyfforddiant	Rasys goriwaered, rasys disgyrchiant dal ati, rasys dal ati, rasys trawsgwlad, beiciau graean, traws-seiclo

Lle gallwch fynd heb ein caniatâd

Mae gan unigolion a grwpiau hawl gyfreithiol i ddefnyddio Llwybrau Ceffylau, Cilffyrdd Cyfyngedig, Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOATs). Mae CNC hefyd yn caniatáu unigolion a grwpiau feicio ar ffyrdd coedwig ar Stad Coetir Llywodraeth Cymru. Ar dir a reolir gan CNC, byddwch hefyd yn dod o hyd i lawer o lwybrau beicio mynydd caniatol a llwybrau wedi'u cyfeirio, sy'n cael eu rheoli fel llwybrau defnydd sengl. Gallwch ddod o hyd i'r llwybrau hyn ar ein gwefan www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ar www.mbwales.com.

Pryd y byddwch angen caniatâd gennym

- Mae digwyddiadau a grwpiau masnachol bob amser angen caniatâd i ddefnyddio ein tir.
- Os hoffech adeiladu unrhyw beth ar ein tir, byddwch angen ein caniatâd bob amser. Fodd bynnag, byddwn ond yn rhoi'r caniatâd hwn mewn amgylchiadau penodol ac fel rhan o gyfundeb rheoli tymor hwy.

Sut rydym yn cefnogi beicio mynydd a beicio

- Byddwn yn dilyn ein [Hegwyddorion Arweiniol](#) ar gyfer cynnwys y gymuned gyda thir rydym yn ei reoli.
- Rydym yn cyhoeddi [Cod Beicio](#) ac yn annog tir a reolir gan CNC i gael ei rannu, fel y gall pawb gael budd ohono.
- Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr i ddarparu llwybrau beicio mynydd a beicio wedi'u cyfeirio, lle mae'n cwrdd ag amcanion ein safle.
- Rydym yn caniatáu digwyddiadau beicio mynydd a beicio neu weithgareddau masnachol pan ystyriwn y gall y safle gynnal y digwyddiad, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, ac yn hapus y caiff ei reoli i'r safon gywir o ran ansawdd a diogelwch.
- Rydym yn ymdrin â nodweddion adeiledig anawdurdodedig a 'llwybrau gwyllt' yn unol â'n gweithdrefnau trefniadol.

Beth fydd angen i chi ei wneud

- Dilynwch y [Cod Cefn Gwlad](#), y [Cod Defnyddwyr Llwybrau](#) a'n [Cod Beicio](#) bob amser.
- Ymataliwch rhag adeiladu unrhyw beth oni bai eich bod wedi cael ein caniatâd. Gall creu 'llwybrau gwyllt' heb eu rheoleiddio a nodweddion wedi'u hunan-adeiladu effeithio ar lwybrau mynediad a ffiniau, a gall fod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill.
- Parchwch ddefnyddwyr eraill ar ein tir. Gall ymddygiad anghyfrifol neu anghymdeithasol ar lwybrau a rennir arwain at wrthdaro â defnyddwyr eraill a gallai fod yn risg i ddiogelwch y cyhoedd. Gadewch i gerddwyr a phobl ar gefn ceffylau fynd gyntaf pan fyddwch ar lwybrau wedi'u rhannu.
- Cadwch at ein holl arwyddion. Mae tir CNC yn aml yn amgylchedd gwaith a gall methu â dilyn arwyddion diogelwch fod yn beryglus i'r beiciwr a'r rheolwr tir.
- Dilynwch ein canllawiau '[Cadwch ef yn Lân](#)' i atal rhywogaethau ymledol rhag lledaenu ac achosi bygythiadau bioddiogelwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae llwybrau'n mynd trwy gyrrff dŵr neu ardaloedd mwldyd.
- Gofalwch nad ydych yn achosi erydiad neu'n niweidio llystyfiant, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif fel coetir hynafol lled-naturiol, twyni tywod a chynefinoedd cors. Gall defnydd dwys hefyd ddifrodi wynebaw llwybr, sy'n golygu nad ydi pobl eraill yn gallu eu defnyddio.
- Peidiwch ag aflonyddu ar anifeiliaid. Maent yn arbennig o agored i niwed yn ystod y tymor bridio ac yn y gaeaf. Gall beicio yn y nos effeithio ar fywyd gwyllt yn arbennig, gan ei fod yn digwydd pan nad yw safleoedd yn cael eu defnyddio gan bobl fel arfer.
- Sicrhewch fod hyfforddwyr ac arweinwyr wedi'u hyfforddi a'u hyswirio'n ddigonol.
- Os ydych yn trefnu digwyddiad, rhowch ddigon o rybudd i ni a pheidiwch â chyhoeddi dyddiadau a lleoliadau hyd nes y cewch ein cadarnhad ni. Dilynwch reolau cyrrff llywodraethu cenedlaethol a chanllawiau arferion gorau a thynnwch arwyddion/hysbysiadau i lawr ar ôl y digwyddiad.
- Sicrhewch fod beiciau trydan yn cydymffurfio â [rheoliadau](#) Beiciau Pedal â Chymorth Trydan.
- Osgowch ddefnyddio llwybrau a neilltuwyd ar gyfer grwpiau defnyddwyr eraill, e.e. cerdded neu farchogaeth

Sut y gallwch ymgeisio am ganiatâd

I ymgeisio am ganiatâd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC ar gyfer mynediad marchogol, cysylltwch hefo ein tîm rhanbarthol yn eich ardal. Mae manylion cyswllt ar gael yn y ddogfen yma:

[Manylion cyswllt am ganiatâd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC](#)

Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, gallwch wybod mwy ar y dolenni canlynol:

- MB Cymru: www.MBWales.com
- Beicio Prydain: www.britishcycling.org.uk
- Beicio Cymru: www.britishcycling.org.uk/wales
- Canllaw EAPC yr Adran Drafnidiaeth: www.gov.uk/electric-bike-rules
- Cymdeithas Beicio Mynydd Rhyngwladol: www.imba.com
- Beicio'r DU: www.cyclinguk.org